CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg GORFFENNAF 2022

PRESENNOL:
Cyng J E Lewis, Miss B Owen, Mrs L Roberts, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
Cyng Ms N Dafydd, J Evans. R G Parry, D T Roberts.

Croesawyd aelodau newydd i`r Cyngor gan y Clerc a`r Cynghorwyr Glyn Jones, W R Parry.
Y Cynghorwyr yn arwyddo ffurflen Dartganiad Derbyn Swydd ar ddechrau y cyfarfod.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 21ain MEHEFIN 22 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R R Roberts. Gyda pawb yn hapus.

Bydd rhaid dewis Swyddogion yn y cyfarfod nesaf. (Cadeirydd Ward Heneglwys) (Is-Gadeirydd Ward Bodwrog/Llandrygarn) Bydd Cyngor llawn.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Cafwyd trafodaethau yn ymwneud a`r uchod.
Cafwyd camarweiniad gan Ysgrifennydd yr Elusen Mr Rees Roberts yn gofyn am un cynrychiolydd, lle yr oedd angen dau. Diolch i Cyng J E Lewis am bwyntio hyn allan. A oedd hyn yn fwriadol neu oedd yn amryffusedd gwir.
Nid oes ymateb wedi dod yn ol ynghlych derbyn Cyng Mrs L Roberts.
R`oedd Cyng Mrs L Roberts wedi ei dewis i gynrychioli ar ol i Cyng J E Lewis ddweud fod angen dau / dwy. A Cadarnhad gan yr Elusen.
Trwy gynnig Cyng N Dafydd ac eilio gan Cyng R R Roberts. Cefnogaeth cryf gan y swyddogion.
Ar ol cysylltu ar Cynghorwyr ar frys ar ol y cyfarfod diwethaf (Mehefin) am fod yr Elusen eisiau cael cyfarfod dechrau Gorffennaf.
Cyngor ar ddeall. Mae cwestiynau yn codi pen ac angen eglurhad.

Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng G Jones nid oedd unrhyw wrthwynebiad i`r Clerc gael atebion. Ni wnaeth Cyng J E Lewis ddatgan diddordeb. Nid oedd angen i Cyng Mrs L Roberts wneud oherwydd nid oedd wedi mynychu unrhyw gyfarfod.

Hysbysford. Bodffordd.
Am nad oes cyfarfod ym mis Awst. Y Cynghorwyr lleol i gael golwg ar y safle i weld ple yw rhoi yn yr Ysgol. Mae rhaid cael un cryf i wynebu y tywydd. Cael prisiau erbyn cyfarfod mis Medi. Cael ei ddefnyddio gan y Cyngor yn unig.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2022/160. Cais llawn i newid defnydd yr hen redfa goncrit yn ardal hyfforddi gyrwyr HGV ynghyd a storio cerbydau HGV, dau gaban symudol a chynhwysydd yn :-
   Yr Hen Rhedfeydd Concrit, RAF Mona, Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
   Ddim yn siwr iawn o`r ymgeisydd. Dipyn o broblemau gyda ef yn Llanfachraeth. Targedau Bwlio.

Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng W R Parry i gefnogi. Nid oedd gwrthwynebiad.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2022/52. Cais llawn ar gyfer estyniad i`r cwrtil yn:-
   Haulfryn, Bodffordd (Cofnodion Mehefin 21ain.)
   Caniatad. Derbyn. Dim sylw.

3. HHP/2022/127. Cais llawn ar gyfer ac ehangu yn:-
   31 Bronheulog, Bodffordd. (Cofnodion Mai 17eg)
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Datganiad: Tai Cyngor Newydd i drigolion lleol.
   Tenantiaid wedi symud i mewn i`w cartrefi newydd ar ol i wyth o Cyngor cael ei gwblhau yn Llanfachraeth. (Stad Newydd Erwlon yr Ysgol)
   Datblygiad diweddaraf i gefnogi blaenoriaeth y Cyngor o ddarparu Tai Fforddiadwy o safon i drigolion Ynys Mon.
   Mae Cyngor Mon yn lledu ei hadenydd, mae hwn yn dilyn datblygiad Rhosybol, gyda mwy ar y gweill.

5. Grantiau. Cyngor Mon. Teifi Jones.
   Grant Asedau Cymunedol Hanesyddol 2022/23.
   Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Adeiladau Hanesyddol.
   75% o gost gwaith sy`n gymwys am grant hyd at uchafswm o £25,000.
   Manylion ar wefan Cadw yn Grant adeiladau hanesyddol i Cadw (llyw.cymru)
   Nid oes dim yn codi ei ben yn wardiau Cyngor Bodffordd. Ond cadw mewn golwg.

6. Peiriannydd Grwp Rheoli Datblygu a Rheoli Traffig Priffyrdd. Eiddo. Alun Roberts.
   Atebiad i ymholiad Einion Williams. Lledu ffordd 25 - 28 Bronheulog, Bodffordd.
   Oherwydd pryderon am ddiogelwch plant wrth groesi tuag at y Cae Chwarae. Priffyrdd wedi ystyried y cais ond dim mewn sefyllfa i weithredu.
   Er na ardal fychan sydd dan sylw byddai angen creu rhan newydd i`r lon gan sicrhau y byddai yn cydymffurfio a gofynion a safonau adeiladau perthnasol. Byddai gwaith yn golygu gwariant sylweddol ac nid ydym o`r farn y bydd hyn yn lleddfu ar y pryderon presennol.
   Petai gwaith yn cael ei wneud byddwn yn rhagwedd cerbydau yn parhau i barcio ar ymyl y lon gan gynnwys y rhan newydd a drwy ledu`r lon yma byddai tebygrwydd y bydd cyflymder traffig yn cynyddu.
   Er ni ellir gweithredu ar ein cais mae yn gobeithio ein bod yn derbyn y rhesymau am hyn. Gadael ar hyn o bryd. Ond cadw mewn golwg.
   Mae yn rhyfedd fod bob dim yr ydym yn gofyn amdano yn cael ateb negyddol. Fel lon Capel Seion, Llandrygarn yn ddiweddar.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Cae Chwarae. Gaynor Jones.
   R`oedd wedi gofyni`r Clerc archwilio y cyfrifon. A gwariant o arian a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymdeithas wedi mynd i brynu meinciau a bins newydd ac arian William Bold yn mynd tuag at siglen nyth (nest swing) a llawr newydd. Mae yn rhoi cais arall i William Bold am fwy o arian. (Yr Ysgrifennydd wedi dweud wrthi)
   Y Cyngor ar ddeall fod meinciau wedi cael rhoi. Mae yn amlwg fod angen mwy.

Cyng J E Lewis yn collfarnu y fantolen ariannol. Nid oedd yn dderbyniol, nid ydyw yn gywir. Bydd y Clerc yn cysylltu a Mrs Gaynor Jones.

8. Mr Einion Williams.
Ysgol Bodffordd yn awyddus i'w gael yn Gynrychiolydd y Llywodraethwyr. Yn Gynghorydd neu ddim yn Gynghorydd.
Yn anffodus nid oedd yn llwyddiannus yn ei gais am sedd ar ward Heneglwys. Felly ni fydd hawl ganddo i gynrychioli y Cyngor am y rhesymau hyn. (Mae ar wybod o'r canlyniad)
Dewis Llywodraethwr / wraig yn cyfarfod mis Medi. I gael hysbysu yr Ysgol.

RHODDION.

9. Dim.

PLWYFOL.

10. Cymeradwyo Awdits y Cyngor. 2021/22.
Yr Awdits wedi ei derbyn yn ol gan yr Awditor Mewnol. Y Clerc yn cyflwyno y ffurflenni i'r Cynghorwyr. Gyda mantolen ariannol iddynt y` chadw. Y Cadeirydd a'r Clerc yn ei arwyddo yw hanfon ymlaen i'r Awditor Allanol. (Archwilio Cymru)
Cynnig R R Roberts, eilio Cyng Mrs L Roberts. Nid oedd gwrthwynebiad.
Nid oedd Cadeirydd newydd wedi ei ddewis hyd cyfarfod mis Medi. Felly arwyddwyd y ffurflen gan Cyng R R Roberts.

11. Rhan gwybodaeth.
Mae gweithgareddau yn digwydd mewn llawr eiddo, chwalu waliau, addasu ac ehangu, torri agoriad, Carafannau ac ymlaen heb unrhyw ganiatad gan Adran Cynllunio y Cyngor Sir.
Yn anffodus mae'r Cyngor Sir yn methu ymdopi, oherwydd nid oes ganddynt yr adnoddau. Un neu ddau / ddwy sydd yn gweithredu dros yr Ynys.
Wedi clywed hyn mae rhaid ei gadw mewn golwg. Efallai os fydd y Cynghorwyr hefo unrhyw amheuaeth o rhyw gario ymlaen. Gellir gysylltu a Swyddog Gorfodaeth Adran Cynllunio y Cyngor Sir neu hysbysu y Clerc. Mae wedi bod yn rhemp yn Wardiau Bodffordd yn ddiweddar a phresennol.

12. Mabwysiadu Polisi Dadrysiad Cwynion - Un Llais Cymru.
Modelu Cynghorau Cymuned a Thref Protocol Lleol.
Cynnig Cyng J E Lewis eilio Cyng R R Roberts. Nid oedd gwrthwynebiad.

13. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Yn ddiweddar mae tri o Rheolwyr y Fynwent wedi gadael oherwydd nad ydynt yn Gynghorwyr ddim mwy.
Ar ol trafodaeth penderfynwyd peidio a dewis Rheolwyr newydd, gwneud i ffwrdd a nhw yn gyfan gwbl. Rhoi cyfrifoldeb y fynwent yn nwylo y Cynghorwyr i gyd (dim pwyllgor bach)
Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng Mrs L Roberts.
Bydd yr Ymgymerwr yn cysylltu a'r Clerc o hyn ymalen pan mae angen caniatad am gladdadiagethau. (Fel yr oedd i fod)
(Nid fel yr oedd o'r blaen pan oedd yr un rheolwr yn cael galwad ac yn gwneud penderfyniadau a'r Clerc yn y tywyllwch.)
Pan fydd y Clerc wedi rhoi caniatad i'r Ymgymerwr, bydd yn cysylltu a Cyng R R Roberts i'w cyfarfod yn y fynwent i ddangos ple i gladdu. (Cydweithrediad a'r Clerc)
Pawb yn hapus.